# LLINELLAU

ER COFFADWRIAETH

AM

## Y DIWEDDAR BARCH. J. WILLIAMS,

PANTYCELYN,

## MAB Y DIWEDDAR W. WILLIAMS,

## Y BARDD CYMREIG.

*GAN JONATHAN DAVIES,*

PENTREFTYGWYN.

1 Sam. 18. 1. A Jonathan a'i carai ef megys ei enaid ei hun.

*LLANYMDDYFRI:*

ARGRAFFEDIG GAN JEFFREY JONES.

1828.

# LLINELLAU

## COFFADWRIAETHOL, &c.

1 OLWYN sydd yn troi mewn olwyn,
Yn ol arfaeth nefoedd fry,
Ac ar ei thro mae'n dwyn i'r goleu
'R hyn oedd bell o'n golwg ni;
Er mor ddyrus yw ei throion,
Etto cyson ynt i gyd,
I ddwyn i ben yr holl fwriadau
Drefnwyd draw cyn seiliad byd.

2 Gwell yw cilio oddiar ei llwybr,
Yn ddystaw na gwrth'nebu ei gwaith,
Nes cael gweled yn y goleu
Mai cywir yw ei throion maith,
Pan yn dirwyn hoff gyfeillion,
Tadau a brodyr ar y llawr,
O gyrhaeddyd ein cyfeillach,
I mewn i'r tragwyddolfyd mawr.

3 'Hedodd newydd i'm cyfarfod,
Ac a r'odd i'm calon loes,
Fod yr enwog anwyl *Williams*
Wedi gorphen cario'r groes:
Hoff oedd genyf ei gyfeillach,
Dwys oedd ei gynghorion da,
Tra'n preswylio ar y ddaear,
Yn ddiammeu eu cofio wnaf.

4 Ei godi wnawd i'r Offeiriadaeth,
Yn moreuddydd dyddiau'i oes,
Lle bu'n aros rai blynyddau
I bregethu Crist a'i groes:
Ond wrth wrandaw yn pregethu
Yr efengylaidd *Jones, Llangàn*,

Cariwyd saethau argyhoeddiadau
I'w ddwysbigo yn y fàn,
5 Nes 'doedd wedi penderfynu
Mai uffern obry fyddai ei le,
Gan daranau mynydd Sinai,
A'i ddychrynllyd farnau E';
Tòrodd gwawr—daeth y goleuni—
Teimlodd rinwedd gwaed y groes
Yn ddigonol feddyginiaeth
I'w iachâu o'i chwerw loes.
6 Nesu wnaeth i fynydd Sion,
O'i holl ofnau mawr i ma's,
Lle mae'n gwel'd y llo pasgedig,
A'r pereiddiaf win ei flas;
Yna trodd at y *Trefnyddion*,
Lle'r arosodd tra fu byw,
I daer gymhell pechaduriaid
I ddod i mofyn heddwch Duw.
7 Galwad gadd ef i Drefeca,
Yn ben-athraw'r ysgol lòn,
A sefydlwyd, a gynnaliwyd,
Ar draul Iarlles *Huntington*,
Lle cadd amryw o wyr enwog,
A defnyddiol yn eu hoes,
O dàn ei ofal eu darparu
I gyhoeddi angeu'r groes.
8 Mudo wnaeth i Bantycelyn,
Wedi marw ei dyner dad,
Lle trigfanodd dros ei fywyd,
A chyfranodd roddion rhad.
Helaeth oedd mewn elusenau,
Yn rhwydd fe roddai at raid y gwan;
Pawb f'ai'n isel yn y dyfnder,
Fe ymdrechai'u codi i'r làn.
9 Meddyg oedd i'r rhai cystuddiol,
Bara i'r newynog rai;

Gwisgai'r noeth, dyddanai'r ofnus,
  Ceryddai'r euog am ei fai;
Annogai bawb i 'mofyn crefydd,
  A duwioldeb yn ei grym,
Ac heb feddu'r enw newydd,
  O flaen y fainc na thâl hi ddim.

10 Taer weddiai am dduwioldeb,
  Ac am gadarn graig i'w draed;
Ofnai bwyso ar un sylfaen
  Ond rhinweddau maith y gwaed;
Cynnes, gwresog, bywiog, selog,
  Oedd ei holl bregethau o'r bron;
Annogai bawb i 'mofyn trysor
  Gan' mil gwell na'r ddaear hon.

11 Cyfaill oedd i'r Cyfeillachau,
  Feiblaidd, a Chenhadol lân,
A'r ysgolion yn 'r Iwerddon,
  Cynnes roddai i'w cynnal mla'n;
Ac yn ei olaf lythyr cymmyn
  Rhoddai'n helaeth at y rhai'n;
Pwy all ammeu ei rinweddau,
  Fe haeddai glod ac uchel sain.

12 Yn y de, ac weithiau'r gogledd,
  Pregethai'n rhwydd i bawb yn rhad,
Ac esboniai'r ysgrythyrau
  Yn dra goleu trwy ein gwlad:
Lle b'ai'n myned, cofiai'r tlodion,
  Os b'ai eisiau yno'n bod,
Ac fe roddai at eu rheidiau
  O'i ddigaued helaeth god.

13 Ond wedi i fethiant ac afiechyd
  'Maflyd ynddo a bod yn nglyn,
Methai deithio oddi gartref
  Ond ar ryfedd fwynaidd hun;
Etto ffyddlon, ewyllysgar,
  Safai ar y gadarn graig,

I ryfela rhyfel Sion
A galluoedd had y ddraig.

14 Enwog oedd ef mewn dysgeidiaeth,
A gwybodaeth helaeth iawn;
Byr, cynnwysfawr, oedd ei eiriau,
Ac o synwyr o'ent yn llawn:
Ei fyfyrgell oedd ei bleser
Penaf ar y ddaear lawr;
Treiddiai mewn i bethau dyfnion
Y cyngor hedd, a'r pwrcas mawr.

15 Hoff oedd ganddo i ymddyddan
Am ogoniant trefn gras,
Ac am lwyddiant yr Efengyl
Yn ddiflino gyda blas;
Parod oedd i roddi atteb
I ofynion buddiol dwys,
Nid yn ysgafn a chellwerus,
Ond yn symyl gyda phwys.

16 Can'waith bum yn Mhantycelyn
Yn ei gynnes lyfrgell,
Yn ymddyddan am drysorau
Mwy na'r byd a chan' mil gwell,
Yno mwy ni wela'i wyneb,
Na'i leferydd 'chlywa'i chwaith,
Dianc wnaeth o'i holl gystuddiau
I Salem fry i ben ei daith.

17 Pan yn methu myned allan,
Pregethai yn ei atre'i hun,
I dyrfa fawr a dd'ai i'w wrandaw,
Sef ei gym'dogion bob yr un;
"A'm clustiau clywais son am danat,
Fy llygaid 'nawr a'th welodd gwn,
'Rwy'n foddlon dod i'r llwch a'r lludw:"
Ei destun olaf ydoedd hwn.*

18 Cafodd gysur yn ei gystudd,
Cadwai 'i afael ar y graig;

[* *Job* 42. 4. 5.

Ymddiriedai ei holl fywyd
Ar addewid had y wraig;
Llawenhau bod llwydd yn Sion,
A'i bendithion fel y gwlith,
Dywedai carai os da fyddai,
Gael dod unwaith iddeu plith.

19 Ond fe ddywedai, "'Rwyf yn meddwl
Na chaf hyny ar y llawr,
Ond caf yno mewn llawenydd
Yn Sion fryn a'r dyrfa fawr;
Lle heb gystudd trwm i wasgu,
I gyffroi rhyw nwydau blin;
Pawb yn llòn yn peraidd ganu,
Ac yn trachtio'r melus win."

20 Er mor helaeth ei rinweddau,
Fe'i cyfrifai megis dail;
'Does dim medd ef a dâl ein cuddio
Ond cyfiawnder Adda 'rail.
D'wedai a'r dagrau ar ei ruddiau,
Ei fod yn rhoddi ei fywyd drud,
Yn ddigrynu am ei gadw
I Iachawdwr mawr y byd.

21 Y pummed dydd yn mis Mehefin,
Daeth ei yrfa yma i bèn,
Ac ehedodd trwy'r wybrenau
I Mewn i gaerau'r nefoedd wèn:
'Madael wnaeth â chwaer a theulu,
A pherth'nasau ar y llawr,
I drigfanau'r byd bendigaid,
I gyduno â'r dyrfa fawr.

22 Galar sydd yn nhref Llan'ddyfri,
Twyn y Llanan, a Chilcwm,
Yn y Pentref gyda ninnau,
Llawer calon sydd yn drwm,
O waith colli hen weinidog
Da defnyddiol yn ei ddydd,

Fu'n llafurio yn ngwaith ei Arglwydd,
Sy'n gorwedd 'nawr mewn gwely pridd.

23 Oedran CRIST ein cynnes geidwad,
Deunaw cant o flwyddau cawn,
Wyth ar hugain, dim yn rhagor,
Dyma'r cyfrif oll yn llawn:
Ynteu'n dri'gain oed a phedair,
Deg yn chwaneg gyda hyn,
Pan ddihangodd trwy'r Iorddonen,
Fynu fry i Sion fryn.

24 Rhoddodd destun dwys sylweddol
I bregethu ar ei ol ;* [* *Phil.* 1. 21.
"Byw i mi yw CRIST fy mhrynwr,
Marw'n elw—myn'd i'w gôl ;"
Tyrfa ryfedd o luosog
Gasglai i'w hebrwng hyd y bedd,
Wedi ei osod yn y llety,
Lle mae 'nawr yn wael ei wedd.

25 Mynwent Llanfair, lle mae'n gorwedd,
Yno'n llonydd wrth y llàn,
Hyd nes delo bloedd yr angel
Ryw foreu ddydd i'w godi i'r làn,
Heb un cloffni nac afiechyd,
Ond yn ddysclaer fel yr haul,
Wedi ei wisgo yn oreudeg
Yn nghyfiawnder Adda 'rail.—*AMEN.*

---

Hen gyfaill oedd ef ini, ïe cofiwch,
Mae'n llechu 'nawr mewn llwch,
Rho'w'd gwirion wr mewn gweryd
I gysgu hûn hyd ddiwedd byd.

---

☞ Y llinellau blaenorol ydynt wedi eu cyfansoddi oddiar yr ymddyddan a fu rhwng y Parch. J. Morgan a minneu â gwrthddrych y cofiant hwn, yn ei gystudd diweddaf.

---

*J. Jones, Argraffydd, Llanymddyfri.*